Adran Gwaith a Phensiynau

# Cynhaliaeth Plant: Strategaeth Newydd ar Gyfer Cydymffurfiaeth ac Ôl-ddyledion

Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad

12 Gorffennaf 2018

## Contents


**Rhagair Gweinidogol** ... 3

**Geirfa** ... 4

**Crynodeb Gweithredol** ... 5

**Ymatebion** ... 8

Newidiadau i gyfrifon ... 8

Didyniadau o fudd-daliadau ... 10

Didyniadau o gyfrifon ar y cyd a chyfrifon busnes unig fasnachwyr a phartneriaethau heb atebolrwydd cyfyngedig ... 13

Pasbortau ... 15

Cais am sylwadau ... 16

**Atodiad A** ... 28

# Rhagair Gweinidogol

Mae'r dystiolaeth yn glir bod plant o deuluoedd sydd wedi gwahanu yn fwy tebygol o gael canlyniadau positif yn eu bywydau os bydd eu rhieni yn cydweithio, heb wrthdaro na ddatryswyd yn effeithiol. Gall trefniadau cynhaliaeth plant llwyddiannus a sefydlog wneud cyfraniad enfawr tuag at hyn. Mae llawer o rieni yn teimlo y gallant wneud y trefniadau yma rhwng ei gilydd, heb ymyrraeth gan y Wladwriaeth; ond ar gyfer y rhai na allant wneud cytundeb teuluol, mae cynllun statudol effeithiol yn hanfodol bwysig.

Rwy'n falch iawn gyda'r datblygiad mae'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant (CMS) wedi ei wneud ers ei gyflwyniad, ond mae mwy i'w wneud er mwyn ei gryfhau. Yn ddiweddar fe wnaethom ymgynghori ar amryw o gynigion i barhau i annog cydymffurfiaeth, gan gynnwys delio gyda'r grŵp bychan o rieni penderfynol sy'n ceisio defnyddio trefniadau ariannol cymhleth er mwyn osgoi eu cyfrifoldebau tuag at eu plant.

Mae'r broses o gau'r Asiantaeth Cynnal Plant (CSA) bron wedi ei gwblhau, ond mae miloedd o achosion CSA yn parhau ag ôl-ddyledion - yn aml yn dyddio yn ôl nifer o flynyddoedd. Mae'r effaith mae hyn wedi ei gael ar y teuluoedd a effeithiwyd arnynt yn destun gofid, a dyna pam rydym wedi gwneud cynigion fydd yn rhoi peth sicrwydd i'r teuluoedd yma am sut gaiff yr ôl-ddyledion yma eu trin. Rwy'n ddiolchgar i'r ystod o fudd-ddeiliaid a gymerodd amser i ymateb i'n hymgynghoriad. Fe wnaethom dderbyn cefnogaeth eang ar gyfer y prif egwyddorion fydd yn ategu ein Strategaeth Newydd ar gyfer Cydymffurfiaeth ac Ôl-ddyledion, fydd yn:

- Parhau i flaenoriaethu casglu arian ar gyfer plant heddiw.
- Parhau i annog cydweithrediad rhwng rhieni.
- Adeiladu ar lwyddiant CMS drwy gyflwyno mesurau gorfodi llymach a gwneud y defnydd gorau o'r pwerau presennol.
- Wynebu'r ôl-ddyledion hanesyddol a gronnwyd o dan gynlluniau'r CSA drwy gynnig siawns olaf o gasglu pan fo hynny'n bosib ac yn rhesymol i'r treth dalwr.
- Osgoi gweithgareddau a ariannir gan y trethdalwr fydd ddim yn arwain at arian yn mynd at blant.

Mae'r ddogfen yma yn gosod allan sut rydym yn bwriadu cyflawni'r rhain, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar ein cynigion. Mae ein dull dewisol yn un fydd yn caniatáu i'r CMS i barhau i gefnogi teuluoedd sydd wedi gwahanu, a delio gyda'r ôl-ddyledion hanesyddol, mewn ffordd sy'n taro'r nodyn cywir rhwng anghenion y teuluoedd hynny a'r trethdalwr.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Asiantaeth Cynnal Plant (CSA)** | Corff gweinyddol ar gyfer y cynlluniau cynhaliaeth plant 1993 a 2003. |
| **Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant (CMS)** | Corff gweinyddol ar gyfer y cynllun cynhaliaeth plant |
| **Opsiynau Cynhaliaeth Plant** | Gwasanaeth am ddim a ddarperir ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n rhoi gwybodaeth a chefnogaeth ddiduedd i helpu rhieni i wneud dewisiadau am gynhaliaeth plant. Bydd rhaid i rieni cael sgwrs gydag Opsiynau Cynhaliaeth Plant cyn gallent wneud cais i'r CMS. |
| **Rhiant sy'n talu cynhaliaeth** | Y rhiant sydd heb brif ofal o ddydd i ddydd o'r plant sy'n gymwys am gynhaliaeth, ac sy'n gyfrifol am dalu cynhaliaeth plant. A adwaenid yn flaenorol fel rhiant dibreswyl. |
| **Rhiant sy'n cael cynhaliaeth** | Y rhiant gyda'r prif ofal o ddydd i ddydd o'r plant sy'n cynnwys am gynhaliaeth, ac a ddylai gael cynhaliaeth plant. A adwaenid yn flaenorol fel rhiant â gofal. |
| **Cytundeb Teuluol (FBA)** | Trefniant cynhaliaeth plant y mae rhieni wedi cytuno arno rhwng ei gilydd, heb gynnwys y gwasanaeth plant statudol. Gall Cytundeb Teuluol (FBA) gynnwys cymorth ariannol a/neu gymorth mewn ffyrdd eraill. |
| **Talu Uniongyrchol** | Math o wasanaeth a gynigir gan y CMS, lle mae'r CMS yn cyfrifo'r atebolrwydd cynhaliaeth, ac yn darparu amserlen dalu, ac mae rhieni yn trefnu'r taliadau rhwng ei gilydd. Nid oes unrhyw ffioedd casglu. Gall unrhyw un o'r cleientiaid ddewis i wneud yr achos yn un talu uniongyrchol, heb ystyried dymuniadau'r llall. Yr unig eithriad yw pan fydd y rhiant sy'n cael cynhaliaeth yn gofyn am gasglu a thalu, ac mae'r CMS yn ystyried bod y rhiant sy'n talu cynhaliaeth yn annhebygol o dalu, yn seiliedig ar dystiolaeth o'u hymddygiad fel rhan o'u hachos gyda'r CMS. |
| **Casglu a Thalu** | Math o wasanaeth a gynigir gan y CMS, lle mae'r CMS yn cyfrifo'r atebolrwydd cynhaliaeth, ac yn darparu amserlen dalu, ac yn cynorthwyo gyda trosglwyddo taliadau rhwng y cleientiaid. Mae'r ddau gleient yn gymwys i ffioedd casglu. Mae ffi o 20% ar gyfer y rhiant sy'n talu cynhaliaeth yn cael ei ychwanegu at yr atebolrwydd wrth iddo gronni, a tynnir ffi o 4% o unrhyw arian a delir i'r rhiant sy'n cael cynhaliaeth. Bydd achosion yn cael ei rhoi yn y gwasanaeth casglu a thalu os bydd y ddau gleient yn gofyn am hyn, neu os yw'r rhiant sy'n cael cynhaliaeth yn gofyn am gasglu a thalu a bod y CMS yn ystyried bod y rhiant sy'n talu yn annhebygol o dalu. |
| **Gorchymyn Didynnu o Enillion (DEO)** | Didyniadau o gynhaliaeth plant yn uniongyrchol o enillion rhieni sy'n talu. Mae ffi gorfodi o £50 yn daladwy os caiff Gorchymyn Didynnu o Enillion ei orfodi ac mae ffioedd casglu hefyd yn gymwys ar gyfer achosion cynllyn 2012. |

## Crynodeb Gweithredol

1. Ar 14 Rhagfyr 2017 fe wnaeth y Llywodraeth gyhoeddi ‘Cynhaliaeth Plant: Strategaeth Newydd ar Gyfer Cydymffurfiaeth ac Ôl-ddyledion’. Cyflwynodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ystod o gynigion gyda’r bwriad o wella cydymffurfiaeth ymhellach yn y Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant (CMS), ynghyd a delio ag ôl-ddyledion hanesyddol a gronnwyd o dan yr Asiantaeth Cynnal Plant (CSA).

2. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 8 Chwefror 2018 ar ôl derbyn cyfanswm o 99 ymateb: 11 gan sefydliadau a 88 gan unigolion preifat, 21 ohonynt yn rhieni sy’n talu cynhaliaeth a 24 sy’n cael cynhaliaeth. Mae rhestr lawn o’r sefydliadau a ymatebodd i’w gweld yn Atodiad A.

3. Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd ymatebion i 15 cwestiwn yn cwmpasu sut mae atebolrwydd cynhaliaeth yn cael ei gyfrifo, pwerau gorfodi newydd ar gyfer y CMS a sut i ddelio gyda ôl-ddyledion cynhaliaeth plant. Nid oedd cau’r CSA wedi ei gynnwys o fewn yr ymgynghoriad gan yr ymgynghorwyd ar hwn yn flaenorol.

4. Ni fu i bob ymatebydd ddewis ateb y cwestiynau penodol a ofynwyd a roedd well gan nifer roi eu barn ar y cynnig yn gyffredinol. Lle’n bosib, rydym wedi ceisio adlewyrchu yr ymatebion yma yn yr adrannau priodol. Roedd nifer fawr o ymatebion gan rieni am amgylchiadau achosion penodol, ac felly tu allan i faes yr ymgynghoriad.

5. Mae’r cyhoeddiad yma yn crynhoi’r prif bwyntiau a waned gan yr ymatebwyr ac yn rhoi ymateb llawn y Llywodraeth iddynt. Mae hefyd yn gosod allan sut byddwn yn symyd y cynnigion ymlaen er mwyn cyflawni amcanion ein strategaeth newydd.

6. Roedd yr ymateb cyffredinol i’n cynnigion ar gyfer gwella cyfrifon atebolrwydd cynhaliaeth yn bositif. Roedd galw arnom i gymryd camau i gynnwys incwm heb ei ennill yn awtomatig pan rydym yn cyfrifo atebolrwydd yn gyntaf, fel a wnawn gyda incwm hanesyddol. Gan ellir gwneud hyn heb newidiadau i’r ddeddfwriaeth sylfaenol, rydym wedi dechrau archwilio gyda a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) am ffyrdd i gyflymu’r broses bresenol o rannu data incwm na enillwyd y maent yn ei ddal.

7. Fe wnaeth yr ymatebyddion gynnig amryw o farnau ar ein pwer newydd arfaethedig i ganiatau i’r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant i gael incwm tybiannol o ased at bwrpas amrywio cyfrifiad.

8. Doedd dim cydsyniad clir ar y canran y dylem ddefnyddio i gael incwm tybiannol nac isafswm gwerth ased y dylai hyn gael ei gymhwyso iddo. Rydym felly wedi dewis parhau gyda’r 8% a gynnigiwyd yn unol â Gorchymyn Dedfryd

Dyled (cyfradd llog) 1993 a byddwn yn gosod gwerth isafswm agregu asedau fel £31,250. Bydd hyn yn caniatau i ni unioni'r ffordd rydym yn delio â incwm heb ei ennill, er budd cyfartal bob parti. Bydd hefyd amddiffiniadau cyfreithiol er mwyn sicrhau bod y pwer newydd yma ond yn targedu asedau addas.

9. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o blaid ein cynnig i ymestyn ein gallu i wneud didyniadau o fudd-daliadau i gynnwys Credyd Cynhwysol (UC) ar gyfer y sawl sydd ag enillion sy'n atebol i dalu cynhaliaeth cyfradd unffurf. Credwn fod hyn yn newid pwysig gan ei fod wedi bod yn brif egwyddor o'n cynllun cynhaliaeth plant y dylai rhieni helpu i gefnogi eu plant, beth bynnag fo'u hamgylchiadau ariannol.

10. Ein bwriad yw i gyflwyno rheoliadau newydd i alluogi i ni wneud y didyniadau yma ar raddfa o £8.40 yr wythnos, gan alinio triniaeth o'r cleientiaid yma gydag eraill mewn sefyllfa debyg. Rydym hefyd yn bwriadu ymestyn didyniadau o fudd-daliadau er mwyn gallu casglu ôl-ddyledion pan fydd cynhaliaeth plant parhaol yn dod i ben. Bydd y didyniadau yma yn amodol ar y gweithdrefnau sydd eisoes ar waith i stopio didyniadau pan fydd rhieni sy'n talu cynhaliaeth yn derbyn taliadau caledi ac i sicrhau bod lles unrhyw blant a effeithir arnynt yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniad i ddidynnu.

11. Rydym eisoes wedi cyhoeddi ein bwriad i gyflwyno pwerau newydd i wneud didyniadau o gyfrifon ar y cyd, ac roedd yr ymgynghoriad yma yn gofyn am farn ar gynnig i ymestyn hyn i gyfrifon busnes partneriaethau heb atebolrwydd cyfyngedig. Er bod ymatebwyr yn gefnogol, pwysleisiwyd ganddynt yr angen am ddulliau diogelu i atal cronfeydd trydydd parti rhag bod yn destun didyniad.

12. Rydym wedi penderfynu newid ein cynnigion i adlewyrchu y pryderon yma. Mae hyn yn yn golygu yn ogystal â'r cyfnodau cynrychiolaeth arfaethedig o 28 diwrnod ar gyfer Gorchmynion Didynnu Cyfandaliad (LSDO) a 14 diwrnod ar gyfer Gorchmynion Didynnu Rheolaidd (RDO) byddwn yn gwirio cyfrifleni banc y chwe mis diwethaf i sefydlu perchnogaeth arian cyn symud ymlaen gyda'r gorchymyn. Pan nad yw hyn yn bosib, byddwn yn cymryd ymagwedd pro-rata a chymryd bod 50% o'r arian yn y cyfrif yn perthyn i'r rhiant sy'n talu oni bai fod tystiolaeth yn cael ei dderbyn i'r gwrthwyneb. Ni fyddwn ychwaith yn didynnu o unrhyw gyfrifon busnes partneriaeth heb atebolrwydd cyfyngedig gyda balans llai na £2000, ac rydym yn ymrwymo i adolygu ein polisi ar ddidyniadau o gyfrifon busnes heb atebolrwydd cyfyngedig[1] bob pum mlynedd.

13. Derbyniwyd ein cynnig i gyflwyno pŵer newydd i atafaelu pasbortau gan y rhai sy'n gwrthod cwrdd â'u rhwymedigaethau cynhaliaeth plant dro ar ôl tro.

[1] Lle gwaed y bartneriaeth yng Nghymru neu Loegr

Rydym yn bwriadu gosod allan mewn rheoliadau y gellir diddymu neu leihau'r gwaharddiad pan wneir taliad llawn neu rhan-daliad o’r ôl-ddyledion a gwmpesir gan y gorchymyn gwaharddiad. Byddwn yn gofyn i'r llys roi 48 awr i rieni i ildio eu pasbort ar euogfarn

14. Rydym yn ymwybodol ei bod yn debygol i grŵp bychan o rieni a fydd bob amser yn ceisio osgoi cyfrannu'n ariannol ar gyfer eu plant, felly gofynnwyd i ymatebwyr i awgrymu unrhyw bwerau newydd nad oes gennym yn barod a allai helpu i gynyddu cydymffurfiaeth y grŵp yma. Cawsom ystod eang o ymatebion yn cynnwys gwneud gwell defnydd o'n pwerau presennol a'r angen i wneud gwell defnydd o rannu data gyda HMRC. Rydym eisoes yn rhoi gwelliannau ar waith i wneud y gorau o'r defnydd o'n pwerau presennol, er enghraifft sefydlu Gorchmynion Didynnu o Enillion (DEO) ar y pwynt cais lle nad yw'r rhiant sy'n talu yn sefydlu dull talu. Rydym wedi trafod rhai opsiynau gyda chydweithwyr HMRC ar gyfer gwneud defnydd gwell o'r data y maent yn ei chadw; rydym yn bwriadu datblygu cynigion penodol gyda HMRC i ddiwallu anghenion CMS yng ngoleuni'r ymgynghoriad.

15. Ar y cyfan, cafodd ein cynigion ar gyfer delio a’r ôl-ddyledion a gronnwyd o dan y CSA eu derbyn yn dda. Roedd nifer o ymatebwyr yn cytuno y dylai cleientiaid gael sicrwydd am statws y ddyled yma. Roedd ymatebwyr hefyd yn deall pam ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion casglu ar yr achosion hynny y gallwn fod yn weddol sicr o lwyddiant.

16. Fe wnaethom gynnig rhoi'r cyfle i rieni sy’n cael cynhaliaeth i gyflwyno sylwadau i ni am eu dyled, gan roi 60 diwrnod iddynt gael ymateb.

17. Fe wnaethom ofyn am farnau ar ba fath o wybodaeth y dylid ei gynnwys yn y llythyr. Roedd ymatebion yn gymysg ynglŷn â chynnwys balans dyled terfynol a manylion am gyfnodau cronni. Ar y sail yma rydym yn credu ei fod yn rhesymol i barhau gyda’n cynnig i beidio â chynnwys y wybodaeth yma mewn llythyrau mewn amgylchiadau penodol. Roedd eraill yn teimlo y dylem gynnwys ymddiheuriad ffurfiol a chynnig iawndal. Ein bwriad yw cyfleu edifeirwch, ond gan fod y ddyled cynhaliaeth yn ddyledus gan un rhiant i’w plant, nid ydym yn credu fod iawndal gan drethdalwyr yn addas.

18. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio sylwadau hefyd ar os oedd ein trothwyon yn rhesymol ar gyfer peidio rhoi’r cyfle i gyflwyno sylwadau, yn seiliedig ar oedran achos a swm y ddyled, ynghyd a’n cynnig i beidio ag anfon llythyrau i achosion gyda balans dyled o dan £65. Yn y ddau achos, roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn cytuno, gyda rhai eithriadau yn anghytuno gyda lefel y trothwyon ond heb gynnig swm amgen a derbyn mai cael trothwy oedd y dull cywir. Ar y sail yma rydym yn cynnig parhau gyda’n cynigion presennol.

# Ymatebion

## Newidiadau i gyfrifon

19. Mae gan y Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant (CMS) eisoes fynediad i ystod llawer ehangach am incwm rhiant sy'n talu cynhaliaeth na'r Asiantaeth Cynnal Plant (CSA), sy'n golygu bod y rhan fwyaf o atebolrwydd achosion yn cael eu cyfrifo yn gynt, ac mae cywirdeb yn uwch.

20. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod nifer bychan o achosion lle mae'r rhieni sy'n talu cynhaliaeth yn defnyddio trefniadau ariannol cymhleth iawn er mwyn cuddio eu hincwm a lleihau eu hatebolrwydd cynhaliaeth plant yn artiffisial. Rydym am gymryd camau i stopio eu plant rhag colli allan o ganlyniad i'r ymddygiad yma.
21. Fel rhan o hyn fe wnaethom ymgynghori ar gyflwyniad pŵer newydd i alluogi i'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant (CMS) i gyfrifo incwm tybiannol o asedau'r rhiant sy'n talu. Bydd yr amrywiad yma yn caniatáu i ni allu ystyried gallu rhieni i gynnal eu plant yn ariannol yn fwy rhesymol. Fe wnaethom ymholi ar agweddau technegol penodol y pŵer newydd yma.

### *Fe wnaethom ofyn*

- Pan na fydd ased yn cynhyrchu incwm, byddai angen pennu incwm tybiannol. Mewn cynlluniau cynhaliaeth blaenorol roedd hyn wedi'i osod ar gyfradd o wyth y cant o werth yr ased. Pa incwm tybiannol y dylid tybio?

### *Fe wnaethoch ddweud*

22. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn gefnogol o gyflwyno'r pwer, ond fe wnaethom dderbyn ystod eang o gynigion mewn cyswllt â'r gyfradd llog. Cynigiodd un ymatebydd 6.75%, yr uchaf o'r ymatebion a dderbyniwyd. Fe wnaeth tri ymatebydd gynnig y syniad o raddfa tracio, wedi ei osod 2% yn uwch na Chyfradd Sylfaenol Banc Lloegr.

23. Wrth ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd nid oedd cydsyniad clir ar ddewis arall i'n graddfa cynigiol o 8% sy'n cyfateb i Orchymyn Dyfarniad Dyled (graddfa llog) 1993, nac ychwaith bu i'r mwyafrif o ymatebwyr awgrymu bod y raddfa yma yn anrhesymol.

### *Beth a wnawn*

24. Rydym yn bwriadu parhau gyda'n graddfa a gynigiwyd o 8%, gan fod hwn yn gytbwys o ran caniatáu i'r pwer newydd gael effaith arwyddocaol ar atebolrwydd cynhaliaeth heb fod yn rhu gosbol. Datganodd y National

Association for Child Support Action (NACSA) eu bod yn teimlo fod y raddfa wedi creu caledi ariannol i rieni sy'n talu cynhaliaeth yn y gorffennol.

25. Roedd gan yr Asiantaeth Cynnal Plant (CSA) bŵer tebyg, a defnyddiwyd y ffigwr o 8% i gyfrifo incwm tybiannol o asedau. Roedd y defnydd o'r ffigwr i'r pwrpas yma hefyd yn destun archwiliad gan dribiwnlys ac fe'i hategwyd.

26. Bydd yr amrywiad yma yn ddefnyddiol mewn ystod o sefyllfaoedd gan gynnwys pan fyddwn yn credu bod rhiant sy'n talu wedi gwneud ymdrech i ddefnyddio trefniadau ariannol cymhleth er mwyn osgoi eu cyfrifoldebau. Rydym yn credu bod ffigwr o 8% yn gyfiawn dros ystod eang o amgylchiadau gwahanol. Gallai hefyd weithredu i annog rhieni sy'n talu i ystyried sut fyddai orau i drefnu eu hamgylchiadau ariannol, er eu lles hwy a'u plant.

27. Fe wnaethom ystyried ymarferoldeb cyflwyno graddfa tracio, ond gan ein bod am i'n dull o gyfrifo atebolrwydd cynhaliaeth fod yn gyson o flwyddyn i flwyddyn fe wnaethom ddiystyru'r syniad yma. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod rhieni yn gallu deall yn glir sut mae atebolrwydd yn cael ei gyfrifo; a byddai cyfradd llog wedi ei dracio yn cymhlethu hyn yn sylweddol.

### *Fe wnaethom ofyn*

- Ydych yn cytuno bod y mesurau yma yn gytbwys o ran gwella sut rydym yn cyfrifo cynhaliaeth ar gyfer enillwyr cymhleth, tra'n gwarchod arian trethdalwyr trwy ganolbwyntio ar yr achosion hynny sy'n fwyaf tebygol o gael eu heffeithio?

### *Fe wnaethoch ddweud*

28. Fe wnaethom dderbyn amrywiaeth o awgrymiadau ar gyfer beth ddylai lleiafswm ased fod. Er nad oedd consensws clir, roedd tueddiad tuag at werth uwch. Fe wnaeth Family Law Bar Association (FLBA) awgrymu incwm tybiannol blynyddol o £25,000 fel lefel rhesymol, tra roedd Cymdeithas y Gyfraith yr Alban yn teimlo bod £65,000 yn dderbyniol.

### *Beth a wnawn*

29. Wedi ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd rydym wedi gosod isafswm gwerth cyfansymiol o asedau o £31,250, ar ôl gwneud didyniadau ar gyfer morgais neu godiannau ar yr asedau. Pan ddefnyddir hyn ar y cyd â graddfa incwm tybiannol o 8% bydd hyn yn golygu y byddwn ond yn amrywio cyfrifiad pan ellir cyfrifo incwm tybiannol o £2,500 neu fwy.

30. Bydd hyn yn unioni gyda'n dull presennol o amrywio cyfrifiad lle datganir incwm heb ei ennill, gan greu dull cyson i amrywiadau dros ystod o amgylchiadau achos.

31. Pan fyddwn wedi adnabod bod gan riant sy'n talu cynhaliaeth asedau uwch na'r isafswm fe wnawn gyfrifo'r incwm tybiannol ar y raddfa 8%, ac yna lluosi'r

ffigwr yna gyda 52 i gael swm wythnosol. Caiff hwn wedyn ei ddefnyddio i amrywio’r cyfrifiad. Bydd yr incwm canlynol yn cael ei ddefnyddio i greu atebolrwydd unai ar ben ei hun neu ar ôl ei ychwanegu at incwm arall sydd eisoes wedi ei sefydlu.

*Esiampl – cyfrifiad atebolrwydd incwm tybiannol ar gyfer un Plentyn Cymwys:*

*£79,750 (cyfanswm gwerth asedau cyfunol) x 0.08 = £6,380 (incwm tybiannol o asedau)*

*£6,380 / 52 = £122.69 (swm wythnosol a ychwanegwyd at incwm)*

*£122.69 x 0.12 (12% o incwm gros sy’n raddfa safonol ar gyfer un plentyn) = £14.72 (swm wythnosol wedi ei ychwanegu at atebolrwydd o 12% o incwm gros)*

32. Fe wnaeth sawl ymatebydd godi’r mater o ddiogelu asedau mewn amgylchiadau penodol, yn enwedig pan mae’r ased dan sylw yn eiddo sy’n gartref teuluol. Mae hyn yn tybio, pan gymerwn ased i ystyriaeth at bwrpas amrywiad, bod rhaid i’r rhiant sy’n talu cynhaliaeth werthu’r ased yna. Nid dyma’r achos o reidrwydd. Rydym yn creu atebolrwydd ychwanegol ar gyfer rhieni sy’n talu cynhaliaeth y dylai llawer allu talu heb yr angen i werthu’r eiddo dan sylw.

33. Ni chaiff ased sy’n brif gartref i’r rhiant sy’n talu; yn gartref i blant y rhiant sy’n talu cynhaliaeth; sy’n cael ei ddefnyddio at bwrpas busnes y rhiant sy’n talu cynhaliaeth; neu sy’n eiddo ar y cyd ei ystyried at bwrpas y pwer newydd. Byddwn yn manylu yn y rheoliadau y mathau o asedau byddwn yn eu hystyried. Ni fydd angen i riant sy’n talu cynhaliaeth i dalu mwy o gynhaliaeth pan fyddai hyn yn golygu gwerthu asedau gan achosi caledi i’r rhiant sy’n talu neu blentyn y rhiant sy’n talu.

## Didyniadau o fudd-daliadau

34. Rydym yn credu y dylai rhieni gynnal eu plant beth bynnag yw eu hamgylchiadau ariannol. Roedd ein hymgynghoriad yn cynnwys cynlluniau i ehangu didyniadau o Gredyd Cynhwysol (UC) i gynnwys achosion lle mae’r rhiant sy’n talu yn atebol i dalu’r gyfradd unffurf o gynhaliaeth a bod gan eu cartref enillion. Roedd hefyd yn cynnwys cynlluniau i gynyddu didyniadau o fudd-dal fel bod ôl-ddyledion yn gallu cael eu casglu pan fo cynhaliaeth barhaol yn dod i ben.

### *Fe wnaethom ofyn*

- Ydych chi'n credu ei bod hi'n rhesymol i ehangu'r cyfleuster i wneud didyniadau cyfradd unffurf cynhaliaeth o UC i'r rhai sydd ag enillion?

### *Fe wnaethoch ddweud*

35. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion o blaid cyflwyno'r newid yma gydag un ymatebydd yn nodi bod "y newidiadau hyn mewn egwyddor yn dod â mwy o gysondeb a chryfhau casglu cynhaliaeth". Awgrymodd ymatebwyr hefyd ein bod yn cyflwyno'r newidiadau Credyd Cynhwysol (UC) yn gyflymach gan ddweud "ni ddylid oedi cyn y newidiadau yma hyd nes y caiff Credyd Cynhwysol (UC) ei chyflwyno'n llawn"

36. Dywedodd rhai ymatebwyr, er bod didynnu o Gredyd Cynhwysol (UC) eisoes ar waith ar y gyfradd o £8.40 ar gyfer y rhai heb enillion, ni ddylai fod unrhyw gynnydd yn uwch na'r lefel yma ar gyfer y rhai sy'n cael Credyd Cynhwyso (UC) ac sy'n cael enillion. Roeddent hefyd yn awgrymu y dylid rhoi darpariaeth mewn grym ar gyfer y ddau fath o achos ar gyfer lleihad lle gellir dangos caledi o ganlyniad i'r taliadau yma.

***Beth a wnawn***

37. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r newidiadau a amlinellir yn ein hymgynghoriad i ymestyn didyniadau o Gredyd Cymhwysol (UC) i'r rhai hynny sy'n atebol i dalu'r gyfradd unffurf o gynhaliaeth gydag enillion. Rydym hefyd yn ymchwilio'r posibilrwydd o gyflwyno'r newid yn gynharach nag y cynlluniwyd. Mae hyn yn destun cyfyngiadau technoleg gwybodaeth a chynnal cyflwyniad llyfn Credyd Cynhwysol (UC).

38. Fe wnaeth ymatebwyr godi'r mater o ddiogelu rhieni sy'n talu cynhaliaeth sy'n cael taliadau caledi. Mae gennym eisoes weithdrefnau i stopio didyniadau pan fo rhiant sy'n talu cynhaliaeth yn cael taliadau caledi a bydd hyn yn gymwys i rieni sy'n cael Credyd Cynhwysol (UC) gydag enillion.

***Fe wnaethom ofyn***

- Ydych chi'n cytuno y dylid alinio didyniadau ôl-ddyledion gyda didyniadau ar gyfer cynhaliaeth barhaol sy'n cyfateb i £8.40 yr wythnos?

***Fe wnaethoch ddweud***

39. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o blaid ein dull o gyflwyno swm cyson ar gyfer didyniadau ar gyfer cynhaliaeth barhaol ac ôl-ddyledion. Awgrymwyd ein bod yn ystyried a ddylai'r gyfradd didynnu aros yn £8.40 yr wythnos ar ôl i'r atebolrwydd cynhaliaeth ddod i ben, neu a ddylai cyfradd is o ddidyniad o fudd-daliadau barhau ar ôl i'r plentyn droi 20, gan mai ar gyfer talu'r ôl-ddyledion yn hytrach na chefnogi'r plentyn fydd hyn. Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn awyddus ein bod yn sicrhau bod ymchwiliadau cadarn yn eu lle ac y dylem sicrhau bod lles pob plentyn sy'n cael ei effeithio yn cael ei ystyried

***Beth a wnawn***

40. Rydym yn bwriadu newid rheoliadau i alluogi i ni barhau i ddidynnu ar y gyfradd unffurf o £8.40 yr wythnos pan fo atebolrwydd yn dod i ben a bod ôl-ddyledion ar yr achos. Rydym hefyd yn bwriadu gosod didyniad ar y gyfradd unffurf ar gyfer ôl-ddyledion os bydd budd-dal yn dechrau ar ôl i atebolrwydd ddod i ben. Bydd hyn yn golygu mai'r uchafswm fyddai rhiant sy'n talu cynhaliaeth yn talu o'u budd-dal fyddai £8.40 yr wythnosol.

41. Rydym yn cynnig cymryd didyniadau ar gyfer ôl-ddyledion o gynhaliaeth heb ei thalu o'r budd-daliadau canlynol:

- Lwfans Gofalwr
- Pensiwn y Wladwriaeth
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Lwfans Ceisio Gwaith
- Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol
- Lwfans Rhiant Gweddw
- Lwfans Pension Gwraig Weddw
- Taliadau Rhyfel Gwraig Weddw
- Lwfans Mamolaeth Statudol
- Lwfans Anabledd Difrifol

42. A budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm gan gynnwys:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn gysylltiedig ag incwm) (ESA)
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm (JSA IB)
- Cymhorthdal Incwm (IS)
- Credyd Pensiwn (PC).
- Credyd Cynhwysol (UC)

43. Rydym yn cynnig y dylai didyniadau fod yn gymwys os bydd y rhiant sy'n talu cynhaliaeth neu eu partner yn cael budd-dal sy'n seiliedig ar incwm.

44. Fe wnaethom yn ystyried yr awgrym y dylai graddfa didynnu lai fod mewn grym pan fydd atebolrwydd yn dod i ben neu mae'r plentyn yn cyrraedd 20 oed. Gan y byddai cynhaliaeth barhaol wedi dod i ben, bydd gan rieni sy'n talu cynhaliaeth y gallu i wneud y taliadau tuag at eu hôl-ddyledion ar yr un raddfa a'r didyniad ar gyfer cynhaliaeth barhaol - ni allwn weld unrhyw reswm i leihau hyn fel bod y ddyled yn cael ei thalu yn arafach. Byddai cyflwyno graddfa wahanol ar gyfer cynhaliaeth barhaol ac ôl-ddyledion yn cyflwyno cymhlethdod.

45. Codwyd pryderon hefyd y dylem sicrhau bod lles yr holl blant yr effeithir arnynt yn cael ei ystyried. Byddwn yn sicrhau bod y gweithdrefnau presennol sy'n sicrhau bod lles pob plentyn sy'n cael eu heffeithio yn cael eu hystyried mewn achosion didynnu o fudd-daliadau, yn cael eu defnyddio i ddidyniadau a wneir o dan y cynigion newydd yma

**Didyniadau o gyfrifon ar y cyd a chyfrifon busnes unig fasnachwyr a phartneriaethau heb atebolrwydd cyfyngedig**

46. Rydym eisoes wedi cyhoeddi ein cynlluniau i ddeddfu i'n galluogi i ddidynnu cynhaliaeth o gyfrifon banc ar y cyd. Roedd ein hymgynghoriad yn cynnwys cynigion i ehangu'r pwerau yma i gyfrifon unig fasnachwyr a phartneriaethau heb atebolrwydd cyfyngedig.

***Fe wnaethom ofyn***

- Rydym yn bwriadu ystyried sylwadau ar gyfer didyniadau cyfandaliad a didyniadau rheolaidd cyn i arian cael ei symud o gyfrif. Rydym yn bwriadu cynnig cyfnod o 28 diwrnod a 14 diwrnod yn ôl eu trefn yn unol â'n cynlluniau ar gyfer cyfrifon ar y cyd. Oes unrhyw reswm pam na ddylem adlewyrchu'r broses ar gyfer cyfrifon partneriaeth?

***Fe wnaethoch ddweud***

47. Roedd cytundeb cyffredinol ymysg ymatebwyr am yr angen i sicrhau na chaiff cynhaliaeth ei didynnu o gyfrif y parti arall. Awgrymodd ymatebwyr hefyd ddiogelu cronfeydd deiliad cyfrifon eraill. Fe wnaethant awgrymu y gellid gwneud hyn trwy ofyn i'r rhiant sy'n talu i ad-dalu arian y deiliaid cyfrif arall a ddidynnwyd mewn camgymeriad.

48. Bu i un ymatebydd wneud sylw ar yr angen i sicrhau bod bob parti i'r cyfrif yn ymwybodol o'u hawl i gyflwyno sylwadau am y didyniad arfaethedig drwy eu hysbysu drwy gyfeiriad cartref a chyfeiriad busnes.

49. Dywedodd yr ymatebwyr bod angen i ni sicrhau bod staff digonol gyda'r arbenigedd addas ar gael i wneud didyniadau o gyfrifon ar y cyd a chyfrifon busnes unig fasnachwyr a phartneriaethau heb atebolrwydd cyfyngedig.

50. Rydym yn bwriadu newid deddfwriaeth i alluogi didyniadau o gyfrifon busnes partneriaeth anghyfyngedig fel yr amlinellwyd yn ein hymgynghoriad. Didyniadau o gyfrifon busnes partneriaeth anghyfyngedig fydd y dewis olaf. Mewn amgylchiadau lle mae gan riant sy'n talu fwy nag un cyfrif banc, rydym yn bwriadu targedu eu cyfrifon unigol yn gyntaf, yna unrhyw gyfrifon preifat a gynhelir ar y cyd a chyfrifon busnes yn olaf, er enghraifft os nad oes digon o arian mewn cyfrifon eraill.

51. Er mwyn mynd i'r afael â phryderon yr ymatebwyr mewn perthynas â didynnu arian deiliad eraill y cyfrif, byddwn yn cyflwyno gwiriadau cadarn i sefydlu perchnogaeth arian. Rydym yn bwriadu gwirio datganiadau banc y chwe mis diwethaf i sefydlu perchnogaeth arian. Os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn cymryd ymagwedd pro-rata a chymryd yn ganiataol fod cyfran gyfartal o'r asedau yn y cyfrif yn perthyn i bob un o'r partïon iddo oni bai bod tystiolaeth yn cael ei dderbyn i'r gwrthwyneb

52. Byddwn hefyd yn rhoi cyfnodau cynrychiolaeth i ddeiliaid cyfrifon ar y cyd o 14 diwrnod ar gyfer gorchmynion didynnu rheolaidd (RDO) a 28 diwrnod ar gyfer gorchymyn didynnu cyfandaliad (LSDO). Gan na allwn rewi'r arian ar gyfer gorchmynion didynnu rheolaidd (RDO), byddwn yn dal yr arian am gyfnod cyn eu talu allan i'r rhiant sy'n cael cynhaliaeth. Bydd hyn yn rhoi amser ychwanegol i'r deiliaid cyfrif eraill i ddarparu tystiolaeth nad yw'r cronfeydd yn perthyn i'r rhiant sy'n talu cynhaliaeth cyn i ni eu talu allan i'r rhiant sy'n cael cynhaliaeth. Bydd gan bob parti i gyfrif busnes partneriaeth hefyd hawl i apelio yn erbyn gwneud gorchymyn didynnu rheolaidd neu gyfandaliad.

53. Mae gennym eisoes dim arbenigol mewn lle sy’n delio yn unig mewn didyniadau o gyfrifon banc. Bydd y tîm yma yn cael hyfforddiant fel y gallent ddelio gyda didyniadau o gyfrifon ar y cyd, unig fasnachwyr a chyfrifon partneriaethau lle nad yw atebolrwydd y bartneriaeth yn gyfyngedig.

54. Fe wnaethom hefyd ystyried yr awgrym i anfon llythyrau cynrychiolaeth i gyfeiriad preswyl deiliad eraill y cyfrif yn ogystal â'u cyfeiriad busnes. Mae'n annhebygol y bydd gennym gyfeiriadau preifat diweddar ar gyfer deiliaid eraill y cyfrif (a all hefyd weld anfon llythyrau at eu cyfeiriad preswyl yn torri ar eu preifatrwydd). Gan ein bod yn cysylltu â deiliaid eraill y cyfrif yn rhinwedd eu busnes, mae'n briodol defnyddio eu cyfeiriad busnes

***Fe wnaethom ofyn***

- Drwy adael isafswm balans yng nghyfrif y dyledwr, mae angen i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) gael cydbwysedd rhwng yr effaith ar weithgareddau busnes cyfreithlon a chasglu cynhaliaeth sy'n ddyledus mewn dull effeithlon. Oes unrhyw resymau y credwch na ddylem ddilyn ffordd Cyllid a Thollau EM (HMRC) o adael £2000?

***Fe wnaethoch ddweud***

55. Fe wnaethom dderbyn nifer bychan o ymatebion i’r cwestiwn yma er bod ymatebwyr yn gyffredinol o blaid gadael lleiafswm mewn cyfrifon busnes. Nid oedd yr ymatebion yn cynnig dull gwahanol na ffigwr gwahanol i’r hyn a gynigwyd gennym.

***Beth a wnawn***

56. Rydym, felly, yn cynllunio i gyflwyno isafswm balans o £2000. Caiff y swm yma ei warchod rhag didyniadau o fewn cyfrifon busnes partneriaeth anghyfyngedig i helpu sicrhau bod gan y busnes ddigon o lif arian i allu parhau i weithredu’n effeithiol. Nid ydym yn bwriadu gosod y ffigwr yma mewn

deddfwriaeth er mwyn caniatáu i ni fonitro sut mae'r broses yn gweithio wrth i ni gyflwyno'r newid.

57. Rydym hefyd yn bwriadu adolygu ein polisi sy'n ymwneud â didyniadau o gyfrifon busnes partneriaeth bob pum mlynedd yn unol â'r Ddeddf Busnesau Bach, Mentrau a Chyflogaeth 2015

**Pasbortau**

58. Roedd ein hymgynghoriad yn cynnwys cynlluniau i ddechrau pwer presenol o fewn y Ddeddf Cynhaliaeth Plant a Thaliadau eraill 2008 i alluogi i ni wahardd rhiant sy'n talu cynhaliaeth sydd gan ôl-ddyledion cynhaliaeth plant rhag dal neu gael hawl y Deyrnas Unedig i deithio – pasbort. Byddai'r pwer yma ond yn gymwys i rieni sy'n byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban.

***Fe wnaethom ofyn***

- Cynghorir y rhiant sy'n talu cynhaliaeth i ddod â'u pasbort gyda nhw i'r gwrandawiad llys, ac os byddant yn methu a gwneud hyn rydym yn bwriadu gofyn i'r llys wneud gorchymyn i'r rhiant sy'n talu cynhaliaeth ei ildio i'r llys o fewn 48 awr (byddai'r dyddiad cwblhau ar ddisgresiwn y llys). Yw'r amserlen yma'n rhesymol?

***Fe wnaethoch ddweud***

59. Dim ond ychydig o ymatebion y gwnaethom dderbyn i'r cwestiwn er ar y cyfan roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'n hamserlen arfaethedig.

***Beth a wnawn***

60. Rydym felly yn bwriadu gofyn bod y cyfnod amser sydd gan riant sy'n talu cynhaliaeth i roi eu basbort i'r llys yn 48 awr, er bod hyn at ddisgresiwn y llys. Rydym yn bwriadu monitor;'r broses a byddwn yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd (HMCT) i addasu'r amser yma os yn briodol.

***Fe wnaethom ofyn***

- Ydych yn meddwl y byddai gwahardd pasbort rhiant sy'n talu cynhaliaeth am ddwy flynedd yn fwy effeithiol na gweithrediadau cyfredol eraill, fel traddodiad i'r carchar neu wahardd rhag gyrru?

***Fe wnaethoch ddweud***

61. Yn gyffredinol, croesawyd cyflwyniad arfaethedig y pŵer newydd yma gan ymatebwyr. Roedd ymatebwyr o'r farn y gallai hyn fod yn bŵer effeithiol ond awgrymwyd y dylem wneud cais i'r llysoedd i ddiddymu'r gorchymyn gwahardd os gwneir y taliad yn llawn.

62. Awgrymodd yr ymatebwyr hefyd y dylai ceisiadau am ddiddymu trwydded yrru neu basbort gael eu datgysylltu o geisiadau traddodi. Felly, gallent gael eu ceisio ar sail annibynnol gyda safon prawf sifil yn cael ei chymhwyso.

### *Beth a wnawn*

63. Rydym yn falch bod yr ymatebwyr o blaid cychwyn ein pwerau i wahardd pasbortau rhieni nad ydynt yn cydymffurfio ac rydym yn cynllunio i ddeddfu i gyflwyno'r pŵer yma. Rydym yn bwriadu cychwyn y pwerau mewn deddfwriaeth i ddiddymu'r gwaharddiad os gwneir taliad llawn o'r ôl-ddyledion a gwmpesir gan y gorchymyn gwahardd. Os gwneir rhan o daliad ôl-ddyledion yna gellid lleihau'r gwaharddiad.

64. Rydym yn nodi sylwadau'r ymatebydd sy'n ymwneud â dad-gysylltu ceisiadau pasbort o geisiadau traddodi. O gofio natur ddifrifol y pŵer yma, mae angen i ni sicrhau bod mesurau diogelu priodol mewn lle i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol, a dyna pam mai dim ond llys all ei orchymyn. Byddwn yn ystyried hyn fel newid posibl yn y dyfodol, ond erbyn hyn rydym am ei weithredu mewn ffordd reoledig, gan ddefnyddio'r broses sefydledig yn y llys sydd eisoes ar waith ar gyfer traddodi a gwaharddiad rhag gyrru.

## Cais am sylwadau

65. Rydym yn gwybod bod grŵp bychan o rieni sy'n mynd i drafferth mawr i beidio â gorfod cyfrannu'n ariannol i'w plant. Roedd ein hymgynghoriad yn cynnwys cynigion ar sut rydym am dargedu'r grŵp yma i wella lefelau cydymffurfiaeth a gwneud yn glir i rieni sy'n talu cynhaliaeth beth yw eu cyfrifoldebau ariannol tuag at eu plant.

### *Fe wnaethom ofyn*

- Allwch feddwl am unrhyw bwerau nad oes gennym nawr fyddai'n ein helpu i gynyddu cydymffurfiaeth ac adennill ôl-ddyledion yn y grwpiau anodd yma?

### *Fe wnaethoch ddweud*

- Mae angen i ni wneud gwell defnydd o'n pwerau presennol.
- Mae angen i ni gyflwyno newid ymddygiad trwy greu diwylliant sy'n talu a gwella ein cyfathrebu cyfrifo a gorfodi er mwyn cynyddu cydymffurfiaeth.
- Mae angen i ni wneud gwell defnydd o rannu data gyda HMRC.
- Dylem sicrhau proses effeithiol ar gyfer symud achosion i'n Huned Ymchwiliad Ariannol (FIU), gan ganolbwyntio ar adnabod achosion y mae angen eu cyfeirio, y rhai sydd angen eu cyfeirio at dribiwnlys a sicrhau bod achosion a gyfeirir at Uned Ymchwiliad Ariannol (FIU)yn debygol o gael canlyniadau llwyddiannus.

- Mae angen i ni adolygu'r rhyngweithio rhwng talu uniongyrchol a chasglu a thalu.
- Mae angen i ni wneud gwell cysylltiadau gyda'r Rhaglen Lleihau Gwrthdaro Rhieni.
- Mae angen adolygu cyfrifiad cynllun 2012 i ystyried y materion sy'n ymwneud â'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (UC).
- Dylem ystyried defnyddio’r gwasanaeth casglu a thalu fel cymhelliant trwy ostwng taliadau os gwneir y taliad cyntaf drwy’r gwasanaeth casglu a thalu ar amser.
- Dylid casglu taliadau cynhaliaeth plant fel Benthyciadau Myfyrwyr.
- Dylem ganiatáu i rieni ddelio â’u cynhaliaeth plant yn breifat drwy'r llysoedd.

***Beth a wnawn***

**Gwneud gwell defnydd o’n pwerau gorfodi presennol**

66. Rydym eisoes wedi gwneud nifer o welliannau i’n prosesau ar gyfer defnyddio ein pwerau gorfodi presenol. Er enghraifft

- Rydym wedi gwneud newidiadau i brosesau i wneud gwell defnydd o Orchmynion Didynnu o Enillion, fel y gellir eu sefydlu pan wneir cais pan na fydd y rhiant sy'n talu cynhaliaeth yn cysylltu gyda ni i sefydlu dull o dalu o fewn yr amser penodedig.
- Rydym yn gwneud gwell defnydd o'n hoffer asiantaeth cyfeirio credyd i benderfynu ar y camau mwyaf effeithiol i'w cymryd yn gynharach yn y broses
- Rydym wedi symud yn ôl y pwynt yn y broses lle rydym yn gwneud didyniadau o gyfrifon banc. Mae hyn nid yn unig wedi cynyddu nifer y didyniadau o gyfrifon banc ond hefyd yn golygu ein bod yn cael arian i blant yn gyflymach.
- Er mwyn lleihau'r broses Asiant Gorfodi (beili) lle mae lleoliad y rhiant sy'n talu yn ansicr, rydym yn treialu dull newydd o wneud y defnydd gorau o'n pwerau olrhain yn gynharach yn y broses. Bydd hyn yn caniatáu i Asiantau Gorfodi geisio cyswllt gan ddefnyddio'r cyfeiriad newydd yn yr ychydig wythnosau cyntaf yn hytrach nag yn ddiweddarach yn y broses fel yw’r dyluniad presennol.
- Rydym wedi symleiddio'r broses cyflwyno gwysi ar gyfer gorchmynion atebolrwydd, gwaharddiad rhag gyrru ac achosion traddodi er mwyn ei gwneud yn symlach i'n gweithwyr achos wneud cais am y cosbau yma.
- Rydym wedi cyflwyno timau pwrpasol ar gyfer rhannau o'r broses gorfodi, i ddelio ag achosion traddodi i’r carchar a gwahardd rhag gyrru, gorchmynion codi tâl, a gorchmynion gwerthu; a rhoi camau ar waith i symud yr achosion i'r timau hyn yn gyflymach. Mae hyn yn ein galluogi i wneud y gorau o effeithlonrwydd trwy adeiladu arbenigedd mewn prosesau penodol.
- Rydym yn edrych ar yr opsiynau sydd ar gael i wella adfer ôl-ddyledion lle mae gorchymyn codi tâl wedi'i gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir. Ein nod yw adolygu'r math o gyfyngiadau a all fod wedi'u cofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir a'r amodau sydd ynghlwm wrthynt. Ochr yn ochr â'r gwaith yma, byddwn yn ystyried a

fydd yn bosibl gorfodi cyfreithwyr sy'n ymdrin â gwerthu eiddo i dalu'r ddyled a sicrhawyd gan orchymyn codi tâl o'r ecwiti a ryddhawyd

67. Rydym yn cynllunio treial sy'n cyfeirio achosion dyled isel i gontractwyr allanol i ymgymryd â gweithredu adfer ôl-ddyledion cyfyngedig ac annog rhieni sy'n atebol i wneud taliadau cynhaliaeth plant i ymgysylltu â CMS. Bydd yr asiantau allanol yma yn gofyn am gyfandaliad o ôl-ddyledion cynhaliaeth plant mewn achosion lle nad yw'r ôl-ddyledion eto wedi cyrraedd y lefel y byddem yn gwneud cais am orchymyn atebolrwydd. Os na fydd unrhyw daliadau ar gael bydd yr asiant yn gofyn i'r rhiant atebol gysylltu â’r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant i drafod talu'r ôl-ddyledion

68. Rydym hefyd yn adolygu sut y gallwn wneud y defnydd gorau o bwerau sydd gennym i atal rhieni sy'n talu waredu neu drosglwyddo asedau er mwyn osgoi talu eu cynhaliaeth plant. Bydd hyn yn golygu adnewyddu ein canllawiau i sicrhau bod staff sy'n delio ag adennill ôl-ddyledion yn ymwybodol o argaeledd y pwerau yma, a phan yn briodol i'w defnyddio

69. Byddwn yn parhau i fonitro effeithiolrwydd ein camau cydymffurfio a gorfodi, a byddwn yn gweithio o fewn ein pwerau presennol i gynyddu casgliadau cynhaliaeth.

### Creu diwylliant sy’n talu

70. Rydym am greu diwylliant sy'n talu ymysg rhieni. Rydym eisoes wedi dechrau rhoi camau ar waith i wella cyfathrebu er mwyn ei gwneud hi'n haws i rieni ddefnyddio ein gwasanaeth i ryngweithio â ni. Rydym yn adolygu ac yn gwella'n barhaus sianeli cyfathrebu lluosog, gan gynnwys llythyrau, negeseuon testun SMS a’r wefan Hunanwasanaeth.

71. Byddwn yn parhau i adolygu effeithiolrwydd y newidiadau hyn, a byddwn yn gwneud gwelliannau pellach fel sy'n briodol

### Gwneud defnydd gwell o rannu data gyda HMRC

72. Awgrymodd rhai ymatebwyr ein bod yn awtomatig yn gofyn am wybodaeth am incwm heb ei ennill gan HMRC, yn yr un modd ag y gwnawn ar hyn o bryd ar gyfer incwm hanesyddol. Byddai gwneud hyn yn golygu newid i ddeddfwriaeth sylfaenol a newidiadau i'n system TG gyfredol, sy'n annhebygol o fod yn bosibl yn y dyfodol agos.

73. Yn lle hynny, rydym wedi dechrau archwilio gyda HMRC sut i wella ein cyfathrebu cleientiaid presennol a hyfforddi gweithiwr achos i godi

ymwybyddiaeth ar draws y ddwy adran am incwm heb ei ennill. Ein nod yw sicrhau bod cleientiaid yn deall beth yw incwm heb ei ennill, yr effaith y gall ei gael ar atebolrwydd cynhaliaeth plant, a phwysigrwydd codi'r mater ar ddechrau'r achos. Credwn y bydd hyn, ynghyd â gwella ein gweithdrefnau, yn helpu i ffactora incwm heb ei ennill yn y cyfrifiad cychwynnol mewn mwy o achosion.

74. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda HMRC i weld be arall y gallwn ei wneud ar y cyd i fynd i'r afael ag achosion cynhaliaeth plant gydag enillwyr cymhleth. Ar hyn o bryd rydym yn archwilio ar y cyd:

- Y wybodaeth ychwanegol gall Cyllid a Thollau EM fod ar gael i'n Uned Ymchwiliadau Ariannol (FIU) i helpu i asesu incwm y rhiant sy'n talu, megis data treth hunanasesu ar gyfer blynyddoedd treth lluosog.
- Gwell sianelau o gyfathrebu rhwng yr Uned Ymchwiliadau Ariannol (FIU) a Uned Ymchwilio Twyll HMRC (FIS), gan gynnwys proses ffurfiol ar gyfer cyfeirio achosion a ymchwiliwyd gan yr Uned Ymchwiliadau Ariannol (FIU) i'r Uned Ymchwilio Twyll HMRC (FIS) lle gallai fod anghysondebau treth y mae angen eu harchwilio.

**Gwella ein Huned Ymchwiliadau Ariannol**

75. Mae prosesau ar waith gennym eisoes sy'n galluogi adnabod a chyfeirio achosion yn effeithiol i'r Uned Ymchwiliadau Ariannol (FIU), fel y dangosir gan y cynnydd cyson mewn cyfeirio effeithiol a chanlyniadau cadarnhaol.

76. Byddwn yn parhau i fonitro ein heffeithiolrwydd yn y maes yma, gan gyhoeddi ystadegau bob chwarter.

**Y rhyngweithio rhwng talu uniongyrchol a chasglu a thalu**

77. Fel rhan o'r adolygiad 30 mis o godi tâl, gwnaed dadansoddiad ar effeithiolrwydd talu uniongyrchol. Rydym yn gweithredu'r gwelliannau a ddaeth o'r canfyddiadau yma, gan ganolbwyntio ar roi disgwyliadau clir i gwsmeriaid, gan sicrhau bod cwsmeriaid ond yn defnyddio talu uniongyrchol pan fo hynny'n briodol, a pan fod trefniadau talu uniongyrchol yn methu, caiff achosion eu symud yn gyflym i'r gwasaneth casglu a thalu a gweithredu i adennill ôl-ddyledion ac ailsefydlu cydymffurfiad.

78. Byddwn yn parhau i fonitro effeithiolrwydd talu uniongyrchol a'r cyd-chwarae rhwng y gwahanol wasanaethau, a byddwn yn gweithredu gwelliannau pellach i'r broses fel yn briodol

**Gwneud cysylltiadau gwell gyda'r Rhaglen Lleihau Gwrthdaro Rhieni**

79. Mae tystiolaeth yn dangos y gall gwrthdaro rhwng rhieni (p'un a ydynt wedi gwahanu neu beidio) sy'n digwydd yn aml, yn ddwys, ac sydd ddim yn cael ei ddatrys yn dda, yn niweidiol i plant yn hirdymor. Pan fo rhieni sydd wedi'u gwahanu yn parhau i wrthdaro, gall fod yn anoddach iddynt gyflawni trefniadau cynhaliaeth plant cynaliadwy.

80. Mae'r Rhaglen Lleihau Gwrthdaro Rhiant yn gweithio gyda'r holl awdurdodau haen uchaf yn Lloegr i'w cefnogi i integreiddio cymorth profedig i fynd i'r afael â gwrthdaro rhieni yn eu gwaith lleol gyda theuluoedd - gan gynnwys teuluoedd ar wahân. Bydd hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant i weithwyr rheng flaen i'w cefnogi i adnabod lle gallai gwrthdaro fod yn broblem rhwng rhieni. Byddem yn disgwyl y byddai hyn yn hyrwyddo cydweithio gwell rhwng rhieni ar draws ystod o wahanol faterion, gan gynnwys cymorth ariannol i'w plant ar ôl gwahanu.

81. Rydym wedi ymrwymo i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr hyn sy'n gweithio i leihau gwrthdaro rhieni (gan gynnwys lle mae rhieni wedi gwahanu) - ac yn gosod contractau i brofi tua deg ymyriad mewn 30 o ardaloedd awdurdodau lleol Lloegr i ddarganfod mwy am yr hyn sy'n gweithio i leihau gwrthdaro rhieni ar gyfer teuluoedd dan anfantais. Rydym yn gweithio gyda'r Sefydliad Ymyrraeth Gynnar i rannu tystiolaeth gydag ardaloedd lleol.

82. Rydym hefyd yn cydnabod bod rhai rhieni yn hoff o gael cymorth yn ddigidol. Byddwn yn gweithio gyda budd-ddeiliaid ar draws y Llywodraeth i archwilio'r angen am wybodaeth ddigidol a chyfeirio i helpu rhieni sy'n gwahanu i ddatrys gwrthdaro. Mae gan ein gwasanaeth Opsiynau Cynhaliaeth Plant hefyd wybodaeth i helpu i gyfeirio rhieni at gefnogaeth ac rydym yn parhau i adolygu'r gwasanaeth yma

**Adolygu cyfrifiad y cynllun 2012 ac ystyried y materion sy'n ymwneud â'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (UC)**

83. Mae cynllun 2012 yn defnyddio dull cyfrifo sy'n debyg iawn i'r cynllun cynhaliaeth blaenorol wrth ddefnyddio cyfran o incwm rhiant sy'n talu cynhaliaeth i gyfrifo'r atebolrwydd. Yn y cynllun 2003 rhoddwyd gwybodaeth incwm "net" yn uniongyrchol i'r gwasanaeth trwy rhieni sy'n talu. Yn aml, roedd hyn yn arwain at oedi wrth sefydlu trefniadau cynhaliaeth ar draul y plant. Ar gyfer cynllun 2012, rydym yn defnyddio gwybodaeth incwm a ddarperir yn uniongyrchol i'r gwasanaeth gan HMRC oedd yn golygu bod angen newid i

ddefnyddio incwm "gros". Mae defnyddio gwybodaeth HMRC yn fwy cywir ac yn fwy effeithlon. Rydym yn falch o'r gwelliannau a ddaeth gyda’r newidiadau yma i gyfrifo'r cynhaliaeth, ond rydym yn parhau i fonitro effaith y newidiadau yma ar y cynllun statudol ar y ddau gleient.

84. Credwn y dylai rhieni dalu cynhaliaeth yn unol â'u henillion. Pan fydd rhieni'n ennill llai na £100 yr wythnos neu ar fudd-daliadau penodol, gan gynnwys yr elfen allan o waith o Gredyd Cynhwysol (UC), yna uchafswm eu atebolrwydd yw £7. Rydym hefyd yn anwybyddu taliadau Credyd Cynhwysol (UC) fel incwm wrth gyfrifo cynhaliaeth plant. Rydym yn ddiolchgar i fudd-ddeiliaid am godi'r mater posib o ryngweithio rhwng y gyfradd tapio Credyd Cynhwysol (UC) a'r cyfrifiad cynhaliaeth plant. Rydym wedi ymrwymo i ymchwilio i hyn, gan weithio'n agos gyda'r grŵp budd-ddeiliaid dan sylw.

**Ystyried defnyddio’r gwasanaeth casglu a thalu fel cymhelliant trwy ostwng codi tâl os gwneir y taliad cyntaf gyda’r gwasanaeth casglu a thalu ar amser.**

85. Un o'n prif amcanion wrth gyflwyno ffioedd yw cynyddu cydymffurfiaeth. Mae cymhellion i dalu eisoes yn bodoli ar gyfer cleientiaid sy’n defnyddio'r gwasanaeth talu uniongyrchol a chasglu a thalu. Pan fo rhiant yn cydymffurfio â threfniant casglu a thalu am gyfnod parhaus, gellir symud yr achos i dalu uniongyrchol lle nad oes ffioedd yn berthnasol. Mae'r rhai sydd yn talu’n uniongyrchol yn cael eu cymell i barhau i dalu er mwyn osgoi gorfod symud i’r gwasanaeth casglu a thalu lle mae ffioedd yn berthnasol.

86. Bwriedir i'r cynllun CMS fod yn syml, fel ei bod yn hawdd i'n cwsmeriaid ei ddeall, a gellir ei weinyddu'n effeithiol. Gallai cyflwyno gwahanol gyfraddau ffioedd gyflwyno cymhlethdod ychwanegol oherwydd gallai bod angen ymdrin ag achosion yn glerigol, gan arwain at gostau ac oedi sylweddol i'n cwsmeriaid.

87. Gan ein bod eisoes yn cynllunio nifer o newidiadau i'n prosesau ôl-ddyledion a gorfodi er mwyn gyrru cydymffurfiad, rydym am fewnosod y rhain, fel y gallwn ddeall eu heffeithiolrwydd, cyn ystyried gwarantu unrhyw newidiadau i'r ffioedd a chodi tâl.

88. Byddwnm hefyd angen tystiolaeth i ddangos y byddai newid y drefn ffioedd yn y modd yma yn arwain at fwy o gydymffurfiaeth.

**Dylid casglu taliadau Cynhaliaeth Plant yr un ffordd â Benthyciadau Myfyrwyr**

89. Telir taliadau tuag at fenthyciadau myfyrwyr trwy Dalu Wrth Ennill (PAYE) ar ganran sefydlog (9%) ar enillion dros drothwy penodedig. Nid yw taliadau cynhaliaeth plant wedi'u gosod ar un gyfradd sefydlog ac mae canran yr incwm i'w dalu yn amrywio o berson i berson yn dibynnu ar eu hamgylchiadau.

90. Rydym am annog diwylliant o gyfrifoldeb a chydweithio rhieni. Pe byddem yn casglu taliadau cynhaliaeth plant o’i ffynhonnell mewn ffordd debyg i dreth, byddai'n tynu’r cyfrifoldeb oddiwrth y rhiant sy'n talu cynhaliaeth. Byddai hefyd yn golygu na fyddai rhieni gydag incwm islaw'r trothwy penodol yn cyfrannu'n ariannol tuag at fagwraeth eu plant. Rydym bob amser wedi credu y dylai rhieni gefnogi eu plant waeth beth fo'u hamgylchiadau ariannol.

**Dileu achosion o CMS i fynd trwy broses llys**

91. Ni ellir gorchymyn trefniant parhaol gan lys fel rhan o unrhyw gamau setliad mewn perthynas â thaliadau cynhaliaeth plant rheolaidd. Sefydlwyd y sefyllfa gyfreithiol hirsefydlog yma ers dros 20 mlynedd.

92. Sefydlwyd y system gynhaliaeth plant statudol gan fod y canlyniadau ar gyfer teuluoedd yn anghyson ac yn ansicr pan gadwyd y materion hyn ar gyfer y llysoedd. Mae'r gwasanaeth statudol yn cynnig gwasanaeth nad yw cynhaliaeth a orchmynwyd gan y llys yn ei gynnig, fel adolygiad blynyddol o atebolrwydd cynhaliaeth gan ddefnyddio gwybodaeth incwm rhiant sy'n talu a gafwyd gan HMRC. Mae cael diweddariad o atebolrwydd o fewn y system llys yn ei gwneud yn ofynnol i bob parti ddychwelyd i'r llys er mwyn cyflwyno tystiolaeth. Mae hon yn broses araf, anffafriol a chostus.

93. Hefyd, nid yw pob cwsmer CMS yn debygol o allu fforddio gwneud hyn yn breifat.

94. Mae gennym ystod eang o bwerau gorfodi cryf gan gynnwys gorchmynion didynnu o enillion, gorchmynion gwerthu, dileu trwyddedau gyrru rhiant nad ydynt yn talu a traddodi i'r carchar felly nid ydym yn credu byddai'r cynnig yma o fudd i'n cwsmeriaid.

**Ymagwedd newydd arfaethedig tuag at ddyled CSA sy'n ddyledus i rieni**

95. Roedd ein hymgynghoriad yn cynnwys ein cynlluniau i fynd i'r afael â'r ôl-ddyledion hanesyddol o £3.7 biliwn a gronwyd ar gynlluniau CSA. Wrth i ni nesau at ddiwedd cau achosion CSA, mae angen mynd i'r afael â’r mater ôl-

ddyledion CSA. Bydd cymryd camau nawr yn ein galluogi i dynnu llinell derfynol o dan broblemau'r systemau cynhaliaeth plant blaenorol a chanolbwyntio ar adeiladu ar lwyddiant y CMS.

96. Rydym am wneud hyn trwy roi cyfle i rieni ddweud wrthym os ydynt am i ni geisio casglu eu dyled un waith yn rhagor opan mae hynny'n gost effeithiol.

***Fe wnaethom ofyn***

- O gofio bod gennym adnoddau cyfyngedig rydym angen canolbwyntio ar blant heddiw, pa gamau gweithredu rydych yn ei gredu sy'n rhesymol ar gyfer achosion hanesyddol yr Asiantaeth Cynnal Plant (CSA)?

***Fe wnaethoch ddweud***

97. Cytunodd yr ymatebwyr yn gyffredinol y dylem weithredu i adennill ôl-ddyledion lle mae'r rhiant sy'n cael cynhaliaeth yn gofyn i ni wneud hynny, ond roeddent hefyd yn cydnabod yr angen i ganolbwyntio adnoddau ar gasglu arian ar gyfer plant heddiw.

98. Dywedodd rhai o'n hymatebwyr na ddylem gyfyngu gweithredu yn y llys i amgylchiadau eithriadol a dylem esbonio beth yw amgylchiadau eithriadol. Gofynnodd ymatebwyr hefyd am eglurder ar y gwiriadau a wnawn i gadarnhau os yw'n werth casglu.

***Beth a wnawn***

99. Byddwn yn ysgrifennu at rieni sydd â dyled dros £1000 (ar gyfer ceisiadau a wnaed cyn mis Tachwedd 2008) neu £500 (ar gyfer ceisiadau a wnaed ar ôl Tachwedd 2008) a gronnwyd ar gynlluniau CSA i ofyn iddynt os ydynt am i ni geisio casglu eu dyled.

100. Os bydd y rhiant sy'n cael cynhaliaeth yn ymateb i'n llythyr yn dweud wrthym eu bod yn dal am gael eu hôl-ddyledion, byddwn yn pennu os oes siawns rhesymol o gasglu. Gwneir hyn drwy wneud rhai o'r gwiriadau canlynol:

- P'un a allwn sefydlu lle mae'r rhiant sy'n talu yn byw.
- Pa gamau gorfodi rydym eisoes wedi'u cymryd ar yr achos yn flaenorol.
- Pa wybodaeth ariannol y gallwn ei chasglu trwy asiantaethau cyfeirio credyd.
- Os yw'r rhiant sy'n talu wedi cael ei ddilyno am unrhyw gyfnod o'r ddyled.

101. Bydd hyn ond yn berthnasol i ddyled sy'n seiliedig ar gynlluniau CSA (er y gallai'r wybodaeth am y ddyled gael ei symud i'r system CMS fel rhan o gau achos CSA).

102. Os oes siawns resymol o gasglu, byddwn yn gwneud ymdrechion rhesymol i gasglu'r ddyled ragorol.

103. Gall gweithgareddau casglu posibl gynnwys:

- Didyniad o fudd-daliadau (gan gynnwys pwerau estynedig a nodir ar dudalen 11).
- Didyniad o enillion.
- Gorchymyn didynnu rheolaidd neu gyfandaliad (gan gynnwys pwerau estynedig a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad yma)

104. Mewn achosion eithriadol, gallwn ddefnyddio pwerau gorfodi gan y llys fel gorchymyn atebolrwydd. Bydd y penderfyniad i symyd achos yn ei flaen i orfodi yn ddewisol a bydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr achos.

105. Bydd rhai o'r ffactorau y bydd gweithwyr achos yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylid symud achosion trwy ein pwerau gorfodi yn y llys yw swm y ddyled a'r tebygolrwydd o adennill. Byddai penderfyniadau hefyd yn ystyried gwerth am arian i'r trethdalwr. Er enghraifft, os oes gennym dystiolaeth sy'n awgrymu bod gan y rhiant sy'n talu eiddo y gallwn gael gorchymyn codi tâl neu gymryd gweithredoedd gorchymyn gwerthu ar y we, mae'n debygol y bydd yr achos yn mynd rhagddo trwy ein pwerau gorfodi yn y llys.

106. Bydd y ddyled yn cael ei ddileu os naill ai:

- Nad yw'r rhiant sy'n derbyn cynhaliaeth yn ymateb i'n llythyr; neu
- Nad oes siawns resymol o gasglu; neu
- Rydym wedi defnyddio ein opsiynau gorfodi ac nid ydym wedi gallu casglu'r ddyled, ac felly byddwn yn hysbysu'r ddau gleient.

### *Fe wnaethom ofyn*

- Ydych yn meddwl bod 60 diwrnod yn gyfnod digonol i ganiatáu sylwadau ar gyfer dileu neu a fyddai cyfnod llai yn fwy addas?

### *Fe wnaethoch ddweud*

107. Cawsom ymateb cymysg i'r cwestiwn yma. Roedd NACSA o'r farn bod y cyfnod yma yn rhy hir oherwydd eu bod yn teimlo bod rhieni sy'n dymuno cael eu hôl-ddyledion hefyd am weld diweddglo cynhyrchiol i'w hachos cyn gynted a phosib, a bydd lleihau'r cyfnod cynrychiolaeth yn helpu i hwyluso hyn. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn bod y cyfnod yma yn rhy fyr er mai eu rhesymau dros gyfnod hwy oedd bod angen i rieni gael amser i ystyried eu dewisiadau a chymharwyd y broses gyda’r broses o gau achosion, sy'n gyfnod o chwe mis.

***Beth a wnawn***

108. Fe wnaethom ystyried yr ymatebion yn ofalus a phenderfynwyd gosod y cyfnod cynrychiolaeth yn 60 diwrnod gyda llythyr atgoffa yn cael ei anfon ar y 21 diwrnod. Fe wnaethom ystyried fod y terfynau amser yn cyd-fynd â'r rhai a oedd yn berthnasol i gau achosion gydag atebolrwydd cynhaliaeth byw. Ar gyfer yr achosion yma mae gan rieni nifer o opsiynau i'w hystyried. Ar gyfer achosion ôl-ddyledion yn unig mae'r dewisiada yn gyfyngedig i ofyn am i'r ddyled gael ei chasglu neu ddim.

***Fe wnaethom ofyn***

- Pa wybodaeth rydych yn ei gredu y dylid ei gynnwys ym mhob llythyr hysbysu ar gyfer dileu?

***Fe wnaethoch ddweud***

109. Roedd consensws cryf y dylem roi camau ar waith i sicrhau bod y cyfeiriadau'n gyfredol ar gyfer rhieni sy'n cael cynhaliaeth. Cawsom ymateb cymysg mewn perthynas â chynnwys symiau dyled yn ein llythyrau. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid cynnwys hyn er gwaetha'r problemau gyda chywirdeb balansau dyledion hŷn, tra bod eraill yn cytuno ei bod yn gwneud synnwyr i beidio â chynnwys balansau dyledion. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo y dylem wneud ymddiheuriad ffurfiol yn ein llythyrau at rieni am eu dyled ac ystyried cynnig iawndal.

***Beth a wnawn***

110. Rydym yn rhoi camau ar waith i sicrhau bod y cyfeiriadau'n gywir, a lle bo angen byddwn yn ymgymryd a chamau olrhain ar achosion a diweddaru cyfeiriadau yn unig. Rydym yn parhau o'r farn na ddylem gynnwys balansau dyledion ar gyfer achosion hŷn na chyfnodau cronni yn ein llythyrau. Nid ydym yn teimlo y bydd ychwanegu'r wybodaeth yma yn helpu cwsmeriaid wrth wneud penderfyniadau. Hefyd oherwydd anghywirdebau balansau dyledion hŷn, mae'n debygol y byddem yn gweld cynnydd mewn cwynion gan rieni oherwydd dryswch y gallai hyn achosi.

111. Bydd ein llythyrau sy'n hysbysu rhieni sy'n cael cynhaliaeth bod eu dyled wedi cael eu dileu yn cynnwys datganiad diffuant o edifierwch. Fodd bynnag, nid ydym yn credu ei fod yn briodol cynnig iawndal am gynhaliaeth heb ei gasglu. Mae'r cyfrifoldeb am gynnal a chadw di-dâl yn eistedd gyda rhieni sy'n talu sydd wedi methu â chyflawni eu cyfrifoldebau dros eu plant.

***Fe wnaethom ofyn***

- Ydych chi o'r farn bod y trothwyon arfaethedig am beidio â chynnig y cyfle i wneud sylwadau, yn seiliedig ar oedran achos a maint y ddyled, yn rhoi cydbwysedd rhesymol rhwng y gost i drethdalwyr a thegwch i rieni sy’n cael cynhaliaeth?

### *Fe wnaethoch ddweud*

112. Roedd y consensws yn cytuno â'n hymagwedd arfaethedig. Er bod ychydig o ymatebwyr yn anghytuno â'r swm yr oeddem yn ei gynnig ar gyfer trothwyon, nid oeddent yn awgrymu dewis amgen a derbyniwyd y rhagdybiaeth o gael trothwy.

### *Beth a wnawn*

113. Rydym, felly, yn bwriadu cynnal yr ymagwedd a amlinellir yn ein hymgynghoriad. Nid yw'n gost effeithiol i geisio casglu dyledion unigol o £500 neu lai (neu ddyledion o £1000 neu lai os yw'r achos yn ddeg mlynedd neu hyn), felly rydym yn bwriadu dileu'r holl ddyledion nad is na’r swm yma. Mae'r gost yn rhwng £500 a £1000 ar gyfartaledd i ymchwilio a gweithredu ar yr achosion yma. Mae hyn yn cynnwys gweithgaredd casglu yn ein timau ôl-ddyledion a'n prosesau gorfodi. Teimlwn fod y trothwyon yn seiliedig ar oedran achos a swm y ddyled yn rhoi pwynt torri rhesymol i sicrhau na fyddwn yn dilyn achosion fydd â chost anghyfartal i'r trethdalwr.

### *Fe wnaethom ofyn*

- Ydych yn meddwl ei bod yn rhesymol peidio ag anfon llythyrau hysbysu dileu ar achosion gyda balans dyled o £65 a llai?

### *Fe wnaethoch ddweud*

114. Cytunodd yr ymatebwyr yn gyffredinol na ddylem anfon llythyrau mewn achosion gyda balansau dyled o dan £65. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y swm yma yn rhy uchel ond nid oedd yn awgrymu swm arall.

### *Beth a wnawn*

115. Rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynllun a amlinellir yn ein hymgynghoriad i beidio ag anfon llythyrau at achosion gyda balansau dyled o dan £65. Mae anfon llythyrau at gwsmeriaid sydd â dyled o dan y symiau yma yn debygol o achosi dryswch, efallai na fydd rhai hyd yn oed yn ymwybodol bod ganddynt unrhyw ddyled ddyledus. Mae ein hymagwedd yn cyd-fynd â pholisi Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) am ddyled sy'n ddyledus i'r Llywodraeth o dan £65.

## Camau nesaf

116. Rydym yn bwriadu gwneud newidiadau mewn is-ddeddfwriaeth i ddod â newidiadau i rym i:

- Rheoliadau Cyfrifo Cynhaliaeth Plant 2012 i gyflwyno incwm tybiannol o asedau a ddelir gan riant sy'n talu.
- Rheoliadau Casglu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant 1992 i alluogi didynnu o gyfrifon ar y cyd a chyfrifon busnes.
- Dechrau pwerau i ddileu trwyddedau teithio (ar gyfer Lloegr, yr Alban a Chymru).
- Diwygio Rheoliadau Rheoli Taliadau a Dyledion Cynnal a Chadw Plant 2009 i ymestyn ein pwerau diddymu.

117. Rydym yn anelu at ddod â'r newidiadau yma i rym yn ystod mis Hydref 2018, Bwriedir i Ogledd Iwerddon symud ymlaen â'r Rheoliadau cyfatebol.

118. Rydym yn bwriadu gwneud newidiadau yn y rheoliadau ar gyfer didynnu budd-daliadau mewn ail becyn o newidiadau deddfwriaethol yn ddiweddarach

# Atodiad A

**Sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad**

Gingerbread
Families Need Fathers (FNF)
Law Society Scotland
Family Law Bar Association (FLBA)
National Association for Child Support Action (NACSA)
Fife Gingerbread
Children Services London Borough of Tower Hamlets
Relate
Money Advice Service
Public Service Union (PCS)
Northern Ireland Public Service Alliance (NIPSA)